



Podlediad Amgueddfa Griced Cymru CC4 - Nodiadau ar gyfer darpar gyfranwyr o glybiau criced

Canllaw yw'r nodiadau hyn ar gyfer y clybiau hynny sydd â diddordeb mewn ymddangos yn y podlediad fel rhan o ddatblygu hanes eu clwb.

Rydym yn awyddus iawn i glybiau ystyried hyn yn gyfle i'r sawl sydd â diddordeb mewn criced ddechrau archwilio eu hanes.

Nid ydym yn disgwyl i glybiau gysylltu â ni â'u hanes yn gyflawn. Dim ots cyn lleied rydych chi'n ei wybod am eich hanes, carai'r podlediad gyfweld â chi.

1. Nid un ffordd yn unig sydd o fynd o gwmpas hyn. Gwrandewch ar y podlediadau hyd yn hyn:

<https://www.buzzsprout.com/1238213>

Rydym wedi recordio podlediadau ag aelod o un clwb sydd â gwybodaeth eang am eu hanes (Aberystwyth a Rogerstone), chwaraewyr yn hel atgofion am eu gyrfa ar y cae (Tre-gŵyr a Phontypridd) neu unigolion sy'n cynrychioli pwnc o ddiddordeb i'r sawl sy'n ymddiddori mewn criced yng Nghymru (Albert Francis, y Llwybrau Proffesiynol a Sgorio gyda Jayne Cole).

2. Newyddiadurwr sy'n siarad Cymraeg yw un aelod o dîm ein podlediad. Rydym yn awyddus iawn i recordio a chyhoeddi penodau yn y Gymraeg.
3. Gofynnwch i chi eich hun, 'pwy sy'n gwybod rhywfaint o hanes ein clwb?' Yn aml, cyn-chwaraewr yw hwn sydd â chysylltiad â'r clwb o hyd, boed yn Gadeirydd, Ysgrifennydd ac ati. Dyma'r bobl orau i gyfweld â nhw gan fod modd iddynt dynnu ar eu profiadau eu hunain yn ogystal ag unrhyw wybodaeth sydd ganddynt ar hyd y blynyddoedd.

4. A allwch chi adeiladu llinell amser yn fras o hanes eich clwb, gan ddechrau ym mlwyddyn ei sefydlu hyd heddiw, gan amlinellu'r prif ddigwyddiadau yn hanes y clwb? Gall y digwyddiadau hyn gynnwys symud i gae newydd, enill twrnament neu gynghrair, ychwanegu cyfarpar neu gyfleusterau newydd yn y clwb pan gynhaliodd y clwb gemau elusennol neu i gemau i godi arian.
5. A oes yna unigolion sy'n gysylltiedig â'r llinell amser yr hoffech iddynt ymddangos yn y podlediad? Gall hwn fod yn gyfweiliad ar wahân i'w gynnwys yn y bennod.
6. Pryd ffurfiwyd y clwb ac a oes yna rywbeth arwyddocaol ynghylch ei wreiddiau? Efallai bod tîrfeidiannwr neu gwmni lleol yn gyfrifol am roi llecyn i gael chwarae criced.
7. A oes gennych chi eitemau o atgofion fel clwb? Yn aml, mae batiau neu ffotograffau neu ddarnau eraill yn y pafiliwn all fod yn fan cychwyn ar gyfer darnau bach o hanes y clwb. Maen nhw'n ein hatgoffa o chwaraewyr enwog sydd â chysylltiad â'r ardal, tîmau llwyddiannus y tymhorau a fu, neu gêm neu ddigwyddiad arbennig y bu'r clwb ynghlwm â nhw. Os oes modd i chi roi copiâu i ni o'r rhain, gallem eu defnyddio, gyda'ch caniatâd chi, i hyrwyddo'r bennod.
8. A oes yna stori ynghlwm wrth fathodyn eich clwb?
9. A oes gan y clwb lysenw neu unrhyw draddodiadau arbennig?
10. A oes yna aelodau o'r clwb nad ydynt o reidrwydd yn chwarae ond sy'n cyfrannu cryn dipyn at ei lwyddiant? A oes gennych chi rywun sydd wedi dyfarnu, cadw sgôr, gwneud y te neu wedi hyfforddi'r plant erioed? Mae modd dathlu pawb sydd â chysylltiad â'r clwb mewn yn y podlediad a gall pob un fod â hanes i'w adrodd.
11. A oes yna hanesydd neu gymdeithas hanes yn yr ardal all eich helpu chi â manylion y clwb? Os felly, gall fod yn werth gynnig lle bach iddynt yn y podlediad i roi hanes cymdeithasol eich tref neu bentref all fod yn rhan o hanes y clwb.
12. Ystyriwch dynnu sawl cyn-chwaraewr ynghyd yn y podlediad. O'n profiad ninnau, gall cyd-chwaraewyr helpu ei gilydd i hel atgofion. Hefyd, cael sgwrs am hanes y clwb sy'n gwneud podlediad yn dda i wrando arno.
13. A oes yna ddigwyddiad neu achlysur arbennig yr hoffech chi dynnu sylw pawb ato fel gêm ben-blwydd, cinio neu wyl? Rhowch wybod i ni ymlaen llaw a fe allwn ni ategu hyn wrth gyhoeddi'r podlediad.

14. Ein profiad ninnau yw fod enw'n dod i'r meddwl ar unwaith wrth ystyried hanes eich clwb. Rhowch wybod i ni ac iddyn nhw, ac fe wnawn ni'r holl drefniadau i recordio sgwrs.
15. Os yw bod yn rhan o'r podlediad wedi ennyn diddordeb ynoch chi i gofnodi hanes eich clwb, gall ein curadur Dr Andrew Hignell a'n tîm o wirfoddolwyr ymroddedig yn yr amgueddfa eich helpu ymhellach. Mae modd iddynt roi manylion i chi am ddatblygiad ehangach y gêm er mwyn i chi osod eich clwb a'i hanes wrth galon hynny. Byddem wrth ein boddau o gael ychwanegu hanes eich clwb i'r cyfoeth o wybodaeth sydd gennym ar ein gwefan:

<https://glamorgancricketarchives.com/>

Diolch am eich diddordeb yn ein podlediad. Edrychwn ymlaen at eich helpu i adrodd eich hanes fel rhan o griced yng Nghymru – ein gêm wych yn ein gwlad wych.



CC4 Museum of Welsh Cricket Podcasts



@welshcricketpod

Email / e-bost: mwcpod1921@gmail.com